# LLOYD, DAVID (bu farw 1747?), clerigwr a chyfieithydd

**Enw:** David Lloyd
**Dyddiad marw:** 1747?
**Rhiant:** Phillip Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a chyfieithydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awduron:** Griffith Milwyn Griffiths, Robert Thomas Jenkins

Ordeiniwyd ef yn ddiacon 27 Mai 1711, ac yn offeiriad 15 Mehefin 1712, gan esgob Llandaf. Disgrifir ef fel myfyriwr o Goleg Iesu, Rhydychen, y tro cyntaf, ac fel B.A. o'r coleg hwnnw ar yr ail achlysur (*Llandaff Subscription Books*). Yr unig berson o'r enw hwn a raddiodd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 1711/12, oedd David Lloyde, mab Phillip Lloyde, o Ddyddewi, Sir Benfro, a raddiodd yn B.A. 24 Mawrth 1711/2, M.A., 1714 (Foster, *Alumni Oxonienses*). Cafodd fywoliaeth Llandefalle, sir Frycheiniog, 3 Rhagfyr 1713, a Chefnllys, sir Faesyfed, 3 Hydref 1717, y ddwy yn esgobaeth Tyddewi. Bu yn y ddau le hyn hyd ei farw (1747?).

Bu Lloyd yn gyfaill a noddwr i Howel Harris ar y cychwyn; ciniawai Harris gydag ef a hoffai ef (dyddlyfrau); ond yn ddiweddarach teimlai'r ficer fod ymddygiadau Harris yn sawru o 'sism,' a bu gohebiaeth ddiddorol rhyngddynt (1741-3) - *Trevecka Letters*, 330, 331, 339, 343, 822, 850, 895, 918 (dyfyniadau helaeth yn H. J. Hughes, *Life of Howell Harris*, pen. xii).

Cyfieithodd *A Discourse concerning the Inventions of Man in the Worship of God*, gan W. King, yn Gymraeg o dan y teitl *Ymadrodd ynghylch Dychymygion Dynion yn Addoliad Duw*. Bu farw cyn Hydref 1747.

## Awduron


**Griffith Milwyn Griffiths**

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)


## Ffynonellau


*Archifau Esgobaeth Ty Ddewi yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn Ll.G.C.

*Archifau Esgobaeth Llandaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn Ll.G.C.

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

*NLW MS* 1626


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5236706


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu